**Atodiad A**

## Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2006 (Diwygiad) (Rhif 2)

## Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1997 Datganiad o Bolisi'n Ymwneud â'r Ymarfer o Swyddogaethau Dewisol

### Rheol 35 – Gofynion ynglŷn ag amseriad y taliad

Mae'r Rheoliadau (fel y'i diwygir) yn rhoi'r cyfle i aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol sydd wedi cyrraedd 50 oed a, gyda chaniatâd eu cyflogwr, i ostwng eu oriau gwaith neu'r radd y'i cyflogwyd hwy arno, i dderbyn eu budd-daliadau ymddeol er nad ydyn nhw wedi ymddeol o'r gyflogaeth honno.

---

**Polisi –** Fod pob cais ysgrifenedig am ymddeoliad hyblyg, pan y'i cefnogwyd gan y rheolwr llinell perthnasol, yn cael ei ystyried ar ei deilyngdod gydag ystyriaeth i'r amgylchiadau penodol a'r buddion sy'n codi, a ddylai gynnwys ystyriaethau ariannol a gwasanaeth.

**Penderfyniad -** Fod yr awdurdod i gymeradwyo'r fath gais yn cael ei ddirprwyo i'w ymarfer gan y Rheolwr Adnoddau Dynol mewn ymgynghoriad gyda'r Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) a'r Prif Swyddog perthnasol, ag eithrio lle gwneir cais gan y Rheolwr Adnoddau Dynol neu'r Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael), lle gwneir y penderfyniad gan y Dirprwy Prif Swyddog Tân.

**Nodyn –** Nid yw'r datganiad polisi uchod yn cyflwyno dim hawliau cytundebol.

**Adolygiad –** Bydd y Gwasanaeth yn adolygu'r polisi hwn mewn 24 mis.